Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Ms. Jane Rodgers
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Radur
Brynbuga
NP15 1GA

Dyddiad / Date: 04 Mehefin 2025

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Fynwy**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau'r ymweliad Archwiliad Gwelliant â Chyngor Sir Fynwy a gynhaliwyd rhwng 31 Mawrth 2025 a 2 Ebrill 2025. Archwiliad Gwelliant yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Gorffennaf 2022 oedd hwn.

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, llinellau ymholi allweddol a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd yr Archwiliad Gwelliant ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Gorffennaf 2022.

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Gorffennaf 2022 | Cynnydd a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwelliant |
|---|---|---|
| Pobl | Roedd ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn amrywio. Nid oedd | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – |

| | | |
|---|---|---|
| | cryfderau'r bobl yn cael eu hystyried yn dda. Gall fod diffyg barn broffesiynol a gwaith dadansoddi risgiau, a phrin iawn oedd y cofnodion a oedd yn nodi bod risgiau wedi'u hystyried.<br><br>Dangosodd data perfformiad yr awdurdod lleol fod angen gwneud gwelliannau o ran cynnig a chofnodi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn gyson, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cyfleu'r canlyniadau y maent am eu cyflawni yn effeithiol.<br><br>Ni chawsom sicrwydd bod yr angen am eiriolaeth yn cael ei ystyried yn gyson gan bob ymarferydd.<br><br>Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol yn nifer y bobl sy'n derbyn y cynnig i gael taliadau uniongyrchol, nid oes digon o adnoddau i brosesu'r ceisiadau hyn.<br><br>Mae angen gwella cysondeb wrth gofnodi cymhwysedd pobl i gael gwasanaethau cymorth<br><br>Roedd anghysondeb o ran ymarferwyr yn cynnig asesiadau gofalwyr.<br><br>Roedd y ffeiliau goruchwylio a welwyd yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. Nid oedd trafodaethau goruchwylio yn cael | mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| | eu cofnodi mewn cofnodion gofal cymdeithasol, sy'n ei gwneud hi'n anodd deall lefel yr oruchwyliaeth gan reolwyr wrth ddarllen y cofnod<br><br>Roedd angen i'r uwch-reolwyr ddatblygu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformid ymhellach. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |
| Atal | Rhaid i'r uwch-reolwyr sicrhau bod yr un amser ac egni yn cael ei gyfeirio at wasanaethau gofal a chymorth statudol yn ogystal â chymorth ataliol er mwyn sicrhau bod y rhain ar gael hefyd i ddarparu amrywiaeth o opsiynau ataliol i gyflawni canlyniadau pobl<br><br>Gwelsom enghreifftiau o bobl yr oedd angen gofal arnynt yn eu cartrefi eu hunain i'w galluogi i barhau'n annibynnol, ond lle nad oedd hyn ar gael.<br><br>Roedd darparu gofal cartref fel bod modd i bobl gael eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty yn her i'r awdurdod lleol, a allai olygu bod yn rhaid i bobl symud i gartref gofal wrth aros am becyn gofal<br><br>Roedd oedi cyn cynnal asesiadau ac adolygiadau oherwydd rhestrau aros i'w weld ar draws timau a phroffesiynau. Nid oedd pob gweithiwr proffesiynol perthnasol yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr adolygiadau. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Llesiant | Roedd angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn bodloni'r terfynau amser ar gyfer ymholiadau adran 126. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed yn ystod y broses ddiogelu gan nad yw'r canlyniadau y mae pobl am eu cyflawni bob amser yn cael eu cofnodi'n glir.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rheolwr penodedig yn gallu canolbwyntio ar gyflawni'r gwelliannau a nodir yng nghynllun datblygu'r tîm diogelu.<br><br>Roedd angen gwella system gofnodi'r awdurdod lleol i adlewyrchu gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn llawn.<br><br>Roedd cofnodi risgiau a rheoli risg yn feysydd yr oedd angen eu gwella.<br><br>Nid oedd fawr ddim gwaith cynllunio wrth gefn i'w weld yng nghofnodion gofal cymdeithasol pobl.<br><br>Roedd angen i'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth gyfathrebu fewnol er mwyn rhoi sicrwydd i'r staff am eu pryderon. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Ni wnaed unrhyw welliannau – mae angen cymryd camau gweithredu<br><br>Ni wnaed unrhyw welliannau – mae angen cymryd camau gweithredu<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth | Nodwyd bod cydberthnasau â chydweithwyr ym maes iechyd eilaidd yn heriol, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty.<br><br>Roedd angen gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phobl a gofalwyr ar ganlyniadau a gaiff eu llunio ar y cyd er mwyn adlewyrchu meysydd asesu ac egwyddorion Deddf 2014.<br><br>Nid oedd rolau a chyfrifoldebau comisiynu yn glir.<br><br>Roedd angen sicrwydd pellach mewn perthynas â strategaeth gomisiynu'r awdurdod lleol ar gyfer gofal cartref. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Ni wnaed unrhyw welliannau – mae angen cymryd camau gweithredu.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

## 2. Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau

Mae rhestr terminoleg yn Atodiad 1 a thabl diffinio meintiau yn Atodiad 2.

## 3. Crynodeb

3.1 Mae gan yr awdurdod lleol weithlu ymroddedig yn y gwasanaethau oedolion sy'n awyddus iawn i gefnogi pobl. Caiff cymorth gan gymheiriaid ei hyrwyddo, ac mae'r staff yn cael cymorth o ansawdd da gan eu rheolwyr, gan gynnwys cyfleoedd goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol.

3.2 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi llwybr ailalluogi ar waith yn y gwasanaeth sy'n cynnwys ailddylunio'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, cynllunio'r gweithlu ailalluogi a chaffael gofal cartref. Ceir arwyddion bod y model ymarfer ailalluogi wedi lliniaru anghenion pobl am gymorth a bod amseroedd aros ar gyfer cymorth gofal cartref wedi lleihau'n sylweddol dros amser.

3.3 Mae'r tîm diogelu yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ac yn ymateb i ymholiadau. Fodd bynnag, nid yw ymholiadau diogelu bob amser yn amserol, ac nid yw camau gweithredu a chanlyniadau yn cael eu cofnodi mewn ffordd glir yn gyson. Mae angen gwneud gwelliannau pellach i gyflawni'r dyletswyddau statudol a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

3.4 Mae pobl yn parhau i wynebu oedi cyn cael asesiadau ac adolygiadau o'u cynlluniau gofal a chymorth. Er bod rhestrau aros yn cael eu hadolygu, mae'r ffordd y caiff hyn ei wneud ar draws timau a disgyblaethau yn amrywio a gall pobl gael gwasanaeth anghyson mewn gwahanol rannau o'r sir.

3.5 Mae gan yr arweinwyr gynllun strategol cynhwysfawr sydd eisoes ar waith i wella'r gwasanaethau a ddarperir i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl. Mae hyn yn cynnwys strategaeth gomisiynu beilot ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a modelau gwasanaeth newydd ar gyfer ailalluogi a Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

3.6 Mae Gwasanaethau Oedolion ledled Cymru yn gweithio mewn amgylchedd heriol, ac yn nodi cynnydd yn y galw a chymhlethdod cynyddol a heriau ariannol. Mae rhai o'r staff yn mynegi pryder am yr angen i sicrhau effeithlonrwydd yn y gwasanaeth a'r effaith y gallai ei chael ar gyflawni canlyniadau i bobl. Mae'r arweinwyr wedi rhoi Grwpiau Dysgu Sicrhau Ansawdd ar waith i drafod achosion fel ffordd o sicrhau bod safonau ymarfer y cytunwyd arnynt yn cael eu rhannu â phob rhan o'r gwasanaeth.

3.7 Rhoddir gwybod i'r arweinwyr am y gwelliannau sydd eu hangen ac maent yn cyfathrebu â'r staff er mwyn rhoi diweddariadau ar ddatblygiadau i wasanaethau a hyfforddiant yn ymwneud â gofynion ymarfer. Dywed yr arweinwyr fod morâl y staff yn ‘broses o newid y mae angen rhoi sylw parhaus iddi’.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**<u>Pobl – Gwnaethom ofyn:</u>**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddo?

## Cryfderau

4.1 Mae'r bywgraffiadau a ddefnyddir mewn asesiadau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o gefndir yr unigolyn a'r cyd-destun i ddangos cryfderau. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.2 Cyfeirir ar safbwyntiau teulu a ffrindiau yn gyson mewn asesiadau. Gellid atgyfnerthu hyn ymhellach drwy gyfeirio'n benodol at eu rôl yn rhoi gofal a chymorth.

4.3 Pan nad oes gan bobl alluedd i wneud penderfyniadau, ar y cyfan, maent yn cael eu cefnogi i leisio eu barn ac i gadw cymaint o reolaeth â phosibl dros eu trefniadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg staff (77%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth. Mae'r ymarferwyr yn nodi ac yn defnyddio amrywiaeth o wasanaethau eirioli i gefnogi pobl.

4.4 Roedd pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses dendro ar gyfer darparwyr gofal cartref fel rhan o'r strategaeth gomisiynu ar gyfer gofal cartref, gan roi sicrwydd bod pobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

4.5 Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr a'u cymheiriaid, a'u bod yn cael cyfleoedd i gael cymorth ffurfiol ac anffurfiol. Byddai 64% o'r staff a gwblhaodd yr arolwg yn argymell gweithio i awdurdod lleol Sir Fynwy.

## Meysydd i'w Gwella

4.6 Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r system gofnodi er mwyn atgoffa'r ymarferwyr i gynnig eiriolaeth ac roedd 75% o'r ymatebwyr i'r arolwg staff yn cytuno neu'n cytuni'n gryf fod y cynnig hwn yn cael ei wneud yn gyson. Fodd bynnag, bu lleihad yn nifer yr asesiadau newydd sy'n dangos bod eiriolaeth wedi'i chynnig. **Dylai'r awdurdod lleol roi systemau cofnodi ac adrodd ar gyfer eiriolaeth ar waith er mwyn mesur llwyddiant, nodi bylchau, a llywio datblygiadau i wasanaethau ac anghenion hyfforddiant.**

4.7 Cafodd y system gofnodi ei diweddaru er mwyn atgoffa'r ymarferwyr i gynnig gwasanaeth Cymraeg, ond nid yw hyn yn cael ei wneud yn gyson ac mae nifer yr asesiadau sy'n dangos bod gwasanaeth Cymraeg wedi'i gynnig wedi lleihau ers 2021-2022. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau cydymffurfiaeth â strategaeth Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru i alluogi pobl i gyfleu'r canlyniadau y maent am eu cyflawni yn effeithiol yn eu dewis iaith.**

4.8 Mae nifer y cynlluniau gofal a chymorth sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi lleihau rhywfaint er 2022. Clywsom safbwyntiau amrywiol am ddigonolrwydd adnoddau i gefnogi taliadau uniongyrchol. Mae'r arweinwyr yn rhagweld y gallai nifer y ceisiadau am daliadau uniongyrchol gynyddu fel rhan o'r strategaeth gomisiynu ar gyfer gofal cartref ac maent yn mynd i'r afael â hyn fel rhan o gynllun yr awdurdod lleol ar gyfer rhoi contractau ar waith er mwyn sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu cyflymu er mwyn cynnal trefniadau gofal sy'n bodoli eisoes. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod digon o adnoddau i ateb y galw a ragwelir a rhannu'r dull gweithredu â'r staff.**

4.9 Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi Grŵp Dysgu Sicrhau Ansawdd (QALG) ar waith i gynyddu goruchwyliaeth y rheolwyr o gynlluniau gofal chymorth. Y nod yw gwella atebolrwydd, rhoi cyfleoedd i ddysgu, a sicrhau penderfyniadau cyson. Dywed yr arweinwyr fod y fforwm hwn yn cefnogi penderfyniadau teg ar gyfer pobl Sir Fynwy. I'r gwrthwyneb, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym fod y QALG yn cael effaith negyddol ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a llais a dewis pobl. Mae'n bwysig bod y staff yn deall diben y QALG. Bydd awydd clir ymhlith yr uwch-reolwyr, wedi'i gefnogi ar draws yr haenau rheoli, yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau gwelliant. Mae'r sylfeini ar gyfer cyflawni'r newid hwn ar waith a dywed y staff fod y rheolwyr, ar y cyfan, ar gael ac yn hawdd mynd atynt. Mae gan yr arweinwyr gynllun strategol ar waith i drawsnewid diwylliant ac ymarfer. **Dylai'r uwch-reolwyr fyfyrio'n feirniadol ar ddiwylliant y sefydliad er mwyn sefydlu dull strategol clir o sicrhau ansawdd, gan sicrhau effeithlonrwydd a gwelliant ac ar yr un pryd, gynnal ffocws ar lesiant pobl.**

4.10 Mae ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn amrywio. Ni chaiff cryfderau a galluoedd y bobl eu nodi'n fanwl a phrin yw'r cofnodion sy'n cynnwys risgiau a chynlluniau wrth gefn. Cafodd y system gofnodi ei diweddaru i atgoffa'r ymarferwyr i gofnodi penderfyniadau yn ymwneud ag anghenion gofal a chymorth cymwys; fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei wneud yn gyson. Mae cwmpas y cynlluniau gofal a chymorth yn gyfyngedig. Dim ond anghenion cymwys y darperir gwasanaethau a gomisiynwyd ar eu cyfer a nodir. **Rhaid i'r awdurdod lleol gynnal sgyrsiau am Yr Hyn sy'n Bwysig mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, gwerthuso risgiau a phennu canlyniadau personol, fel sy'n ofynnol yn Rhan 3 o Ddeddf 2014. At hynny, rhaid i gynlluniau gofal a chymorth gael eu datblygu ar y cyd ag unigolion, gan nodi'r holl anghenion, gan gynnwys y rhai a fyddai'n gymwys pe na fyddent yn cael eu diwallu gan ofalwr, yn unol â Rhan 4 o Ddeddf 2014.**

**Atal – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a bod anghenion yn cael eu hatal rhag gwaethygu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

**Cryfderau**

4.11 Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu dull gweithredu sy'n seiliedig ar le ac mae'n rhoi strategaeth gomisiynu ar waith sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac arbenigedd cymorth darparwyr. Mae argaeledd cymorth cartref wedi cynyddu'n sylweddol ers 2022, sy'n dangos **effaith gadarnhaol** y strategaeth gomisiynu. Dylai'r arweinwyr barhau i gynnal ffocws ar amseroldeb y gofal a'r cymorth a gynigir.

4.12 Mae'r awdurdod lleol yn datblygu llwybr ailalluogi lle y caiff cymorth ailalluogi ei ddarparu ar gyfer pob atgyfeiriad er mwyn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth gartref a helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol. Gwelwyd tystiolaeth o'r dull gweithredu hwn ar draws yr holl weithgarwch ac mae wedi lleihau neu liniaru'r angen am gymorth ar gyfer y rhan fwyaf o'r bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth.

4.13 Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno rôl Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ddynodedig i bob un o'r timau Integredig, gan wella'r ffordd y caiff llwythi gwaith eu rheoli a sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth cyson a sefydlog ar gael i unigolion. Mae'r staff wedi nodi eu bod o'r farn bod y newid hwn yn gadarnhaol, ond dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod amserlen glir ar gyfer ei roi ar waith.

4.14 Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ehangu argaeledd technoleg gynorthwyol, gan gynnwys creu Hybiau Technoleg Gynorthwyol lle y gall pobl roi cynnig ar y dechnoleg fel y byddai'n gweithredu mewn ystafell wely neu ystafell fyw cyn ei gosod. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am dechnoleg gynorthwyol a chael budd o ganlyniadau gwell.

4.15 Cyflwynodd yr awdurdod lleol ofalwyr micro yn 2022 fel ateb arloesol i recriwtio gweithwyr gofal mewn ardaloedd gwledig. Unigolion hunangyflogedig yw gofalwyr micro a all ddarparu gofal a chymorth wedi'u teilwra i bobl gan alluogi pobl i wneud dewisiadau am sut y caiff eu gofal a'u cymorth eu darparu.

4.16 Mae'r tîm o ofalwyr yn dangos esiampl o fodel ymgysylltu â'r gymuned drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor.

**Meysydd i'w Gwella**

4.17 Mae nifer mawr o bobl yn aros am asesiad yn Sir Fynwy yn gyson. Mae nifer y bobl sy'n aros wedi lleihau ac mae amseroedd aros wedi gwella, gyda nifer y bobl sy'n aros am fwy na 91 diwrnod hefyd wedi lleihau.
Mae'r awdurdod lleol yn gweithio i ailddylunio ei wasanaeth yn unol â'i weledigaeth o bobl yn cael cymorth ailalluogi ac adsefydlu prydlon yn y gymuned, ond mae'r amseroedd aros presennol yn golygu efallai na fydd pobl yn cael eu cefnogi, ac y bydd eu hanghenion yn cynyddu, a allai arwain at faich ychwanegol ar ofalwyr di-dâl ac at golli annibyniaeth. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau yn cael eu cwblhau mewn modd amserol a'u bod yn ymateb i natur frys anghenion yr unigolyn yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2014.**

4.18 Mae nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth sy'n cael eu cwblhau o fewn blwyddyn wedi cynyddu ers 2022, ond nid yw'r broses o gofnodi adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn gyson nac yn ddigon manwl. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2014 yn nodi bod yn rhaid i gofnodion adolygiadau *fonitro cynnydd a newidiadau, ystyried i ba raddau mae darpariaeth y cynllun yn diwallu anghenion asesedig a sut y mae wedi helpu'r unigolyn neu'r teulu i gyflawni eu canlyniadau, pennu pa gymorth sydd ei angen yn y dyfodol a chadarnhau neu ddiwygio'r gwasanaethau neu ddod â'r gwasanaethau i ben yn unol â'r gofynion.* **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r cynlluniau y mae'n eu cynnal yn barhaus, gan sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cwblhau bob blwyddyn o leiaf a'u bod yn cael eu cofnodi yn unol â Deddf 2014.**

4.19 Nid yw'r awdurdod lleol yn cofnodi unrhyw gamau gweithredu na chanlyniadau ar gyfer cysylltiadau lle rhoddir gwybodaeth a chyngor yn unig. Mae hyn yn golygu na all ymarferwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am hanes yr achos. Mae bylchau hefyd o ran casglu a dadansoddi data i lywio datblygiadau i wasanaethau a deall profiadau pobl a'r staff. Disgwylir i system newydd gael ei chyflwyno a all gynnig cyfle i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn nodi bod *cofnodi gwybodaeth am y cysylltiad neu atgyfeiriad cyntaf yn cyfrannu at gamau diweddarach yr asesiad* a'i bod yn hanfodol bod ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd y wybodaeth a gesglir ac a gofnodir ar y cam hwn. **Dylai'r awdurdod lleol roi trefniadau ar waith ar gyfer cofnodi ac adrodd ar ganlyniadau a data i gefnogi'r broses o asesu anghenion pobl a llywio datblygiadau i wasanaethau a amlinellir mewn cynlluniau strategol.**

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

**Cryfderau**

4.20 Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd yn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad 2022, gan gynnwys gwelliannau i systemau cofnodi achosion a phrosesau, a rhoi polisi goruchwylio newydd ar waith.

4.21 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn Sir Fynwy yn teimlo'n ddiogel. Dywedodd bron pob aelod o'r staff wrthym fod ymarfer diogelu yn effeithiol a nododd llawer o rhanddeiliaid fod pryderon am ddiogelu yn cael eu hadolygu ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol.

4.22 Mae nifer yr ymholiadau diogelu sy'n cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod wedi gwella dros amser, o 65.5% yn 2021-2022 i 84.3% yn 2023-2024. Mae'r cynnydd hwn yn gadarnhaol, ond mae angen gwneud gwelliannau pellach a pharhaus er mwyn bodloni gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn gyson.

4.23 Mae enghreifftiau sy'n dangos bod asiantaethau partner yn rhoi gwybod yn briodol am achosion pan fo dyletswydd arnynt i wneud hynny. Mae hyn yn bwysig gan ei bod yn golygu bod partneriaid yn cymryd camau priodol, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol i sicrhau bod modd mynd i'r afael â diogelwch a llesiant pobl.

4.24 Dywed partneriaid fod cyfathrebu da rhwng ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac ni nodwyd unrhyw bryderon am bartneriaethau diogelu. Nododd llawer o ymatebwyr i'r arolwg rhanddeiliaid fod pryderon am ddiogelu yn cael eu hadolygu ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol.

4.25 Gall ymarferwyr fanteisio ar gyfleoedd dysgu a rennir i wella eu sgiliau, ac mae hyfforddiant ar ddiogelu wedi'i ddarparu i ddarparwyr yn ddiweddar, yn dilyn cais gan y darparwyr eu hunain. Mae hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu hefyd yn cael ei ddarparu sy'n rhoi sicrwydd bod hyfforddiant a datblygiad staff diogelu yn gyson â hyfforddiant, dysgu a safonau datblygu cenedlaethol mewn perthynas â diogelu.

4.26 Er mai tîm bach yw'r Tîm Diogelu, mae'n adnodd ymatebol ac effeithiol. Lle mae materion wedi codi o ran cysondeb ar draws timau, cawsant eu trafod a gwnaed trefniadau i fynychu cyfarfodydd y priod dimau.

4.27 Mae sesiynau briffio staff wedi'u cynnal, mae trefniadau ar gyfer cyfarfodydd rheoli timau rheolaidd wedi'u sefydlu, ac mae bwletinau rheolaidd wedi'u rhoi ar waith er mwyn rhoi diweddariadau i'r staff. Mae hyn yn bwysig o ran cyfathrebu a meithrin dealltwriaeth a rennir ar draws disgyblaethau a swyddi gwahanol.

**Meysydd i'w Gwella**

4.28 Nododd Arolygiad Gwerthuso Perfformiad 2022 fod angen i'r uwch-reolwyr ddatblygu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformiad ymhellach. Cafodd y QALG ei ddatblygu gan yr arweinwyr i hyrwyddo gwelliannau, ac mae effaith y broses hon yn amrywio. Ni fu gweithgarwch archwilio diweddar i roi sicrwydd am ymarfer ac mae'r cynlluniau ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol yn gyfyngedig. **Mae angen parhaus i ddatblygu systemau a gwybodaeth am berfformiad, a dylai'r arweinwyr gynyddu'r ffocws ar sicrhau ansawdd a gwella ymarfer.**

4.29 Mae rhannu gwybodaeth bersonol ar draws systemau TG iechyd a gofal cymdeithasol yn creu heriau ac oedi posibl pan nad oes gwybodaeth berthnasol a phwysig sy'n gysylltiedig â llesiant a diogelwch ar gael yn hawdd. Mae rhan o'r her yn ymwneud â phreifatrwydd data, cydsyniad, a chydymffurfiaeth â rheoliadau fel y GDPR. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd i ymarferwyr feithrin dealltwriaeth gyfannol amserol o anghenion unigolyn. Bydd system gofal cymdeithasol newydd yn cael ei chyflwyno. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried protocolau rhannu gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â diogelu.**

4.30 Mae'r system bresennol ar gyfer cofnodi achosion yn dameidiog, nid oes modd gweld pob cofnod yn ymwneud ag ymholiadau diogelu mewn un lle ac mae'n anodd olrhain ymholiad yn gronolegol drwy'r broses. Mewn rhai achosion, roedd diffyg eglurder ynghylch canlyniad ymchwiliadau a gofynion dilynol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymchwiliadau a chanlyniadau ymholiadau diogelu, gan gynnwys cyfrifoldebau dros gymryd camau dilynol neu waith adolygu, yn cael eu cofnodi'n glir. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y system rheoli achosion newydd yn cydymffurfio â phob agwedd ar Weithdrefnau Diogelu Cymru.**

4.31 Mae diffyg chwilfrydedd proffesiynol mewn perthynas â nodi ac archwilio risgiau. Prin yw'r cofnodion sy'n cynnwys risgiau a chynlluniau wrth gefn. Lle mae risgiau wedi'u cofnodi, maent yn tueddu i ymwneud ag agweddau ymarferol ar fywyd pob dydd fel y risg o gwympo. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff hyfforddiant a chymorth ategol eu darparu er mwyn annog chwilfrydedd proffesiynol, gan alluogi ymarferwyr i fireinio'r ffordd maent yn dadansoddi risgiau.**

4.32 Rhannodd ymarferwyr safbwyntiau cymysg am ddatblygiadau i wasanaethau, gan gynnwys dull gweithredu'r QALG a'r newidiadau o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r Rheolwyr Tîm a'r Uwch-ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r fforymau ymarfer a byddent yn croesawu sesiynau amlach fel ffordd o ddatblygu. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o bryderon y staff ac maent wedi rhoi strategaeth gyfathrebu ar waith ynghyd â chyfleoedd hyfforddiant gwell. **Dylai'r arweinwyr barhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu**

**â'r staff, atgyfnerthu'r hyfforddiant a gynigir a chydgynhyrchu cynlluniau datblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gweledigaeth a rennir.**

**Partneriaeth – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

**<u>Cryfderau</u>**

4.33 Roedd 87% o'r staff a gwblhaodd yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod asiantaethau partner yn cydweithio'n dda a bod cydberthnasau ar lefelau strategol wedi gwella, a chyfeiriodd uwch-aelodau o staff ar draws yr awdurdod a'r bwrdd iechyd at y ffaith bod mwy o gyfathrebu a chydberthnasau llawn ymddiriedaeth. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig wedi'i sefydlu'n dda.

4.34 Mae'r Timau Integredig (gan gynnwys y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol) yn Sir Fynwy yn un o gryfderau'r awdurdod lleol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth di-dor wedi'i gefnogi gan drafodaethau rheolaidd gan y Tîm Amlddisgyblaethol.

4.35 Mae'r cydberthnasau â chydweithwyr ym maes iechyd sylfaenol yn gadarnhaol ar y cyfan ac mae timau ysbytai yn cydweithio'n dda. Pan fydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio â'i gilydd, mae'n arwain at gymorth mwy cyfannol, cydgysylltiedig ac effeithiol i unigolion. Drwy rannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau, gall gweithwyr proffesiynol leihau achosion o ddyblygu ymdrechion, ac mae hyn yn amlwg yn Sir Fynwy. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.36 Caiff trefniadau comisiynu eu profi, eu treialu a'u gwerthuso, a chaiff gwersi cadarnhaol eu rhannu a syniadau newydd eu hannog. Mae gan yr arweinwyr gynlluniau gweithredu sy'n nodi amserlenni i gyflawni dull cyson o gomisiynu ar draws yr awdurdod lleol. Mae hyn yn **welliant cadarnhaol** ers yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad a dylai'r arweinwyr barhau i ysgogi camau gweithredu yn seiliedig ar y cynlluniau hyn.

4.37 Ceir enghreifftiau o ddull hyblyg, rhyngddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gydweithio. Er enghraifft, mae ymarferwyr therapi galwedigaethol yn aml yn darparu pwynt cyswllt cyntaf priodol i bobl ag anghenion acíwt ar y pryd, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr pan fydd angen cymorth cyflym ar bobl.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.38 Mae'r staff yn nodi heriau parhaus o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty o ganlyniad i fwy o alw a chymhlethdod cynyddol. Er bod sawl enghraifft o gyfathrebu cadarnhaol, mae heriau o ran mynd i'r afael â materion â chydweithwyr iechyd mewn rhai meysydd ymarfer, gyda materion yn cael eu huwchgyfeirio at Uwch-arweinwyr yn ddiangen. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried prosesau uwchgyfeirio cymesur ar gyfer mynd i'r afael â materion rhwng partneriaid mewn modd amserol.**

4.39 Mae'r Tîm Gofalwyr yn darparu swyddogaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ddefnyddiol i ofalwyr. Fodd bynnag, mae'r arfer o gydnabod hawliau gofalwyr i gael asesiad gofalwr ffurfiol yn amrywio, a phrin yw'r asesiadau sy'n arwain at ganlyniadau wedi'u cydgynhyrchu. Mae'r awdurdod lleol yn atgyfeirio rhai gofalwyr at wasanaeth Pontio'r Bwlch?? Fodd bynnag, mae dealltwriaeth ymarferwyr o'r gwasanaethau sydd ar gael yn amrywio. Caiff effeithiolrwydd cymorth i ofalwyr ei gymhlethu ymhellach os oes gan y gofalwr ei anghenion gofal a chymorth ei hun. **Dylai'r awdurdod lleol ddatblygu model gweithio clir y gall y staff uniaethu ag ef er mwyn helpu i sicrhau bod ymarfer yn canolbwyntio'n fwy ar gryfderau a bod mwy o ffocws ar gydgynhyrchu. Dylai'r awdurdod lleol roi eglurder ynghylch y ddarpariaeth i ofalwyr ac ystyried systemau i sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig a'u cwblhau mewn modd amserol.**

## 5. Y camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 30 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 24 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain chwech.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â phum person sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr di-dâl ac ymatebodd 58 o bobl i'n harolwg.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws â 36 o gyflogeion yr awdurdod lleol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, rhanddeiliaid a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn [https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol](https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol).

## 7. Y Gymraeg

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg, gan alluogi AGC i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhan o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## 9. Atodiad 1: Rhestr termau

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant a chyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |